tgp CYMRU
PLANT A THEULUOEDD
CHILDREN AND FAMILIES

HANNER MARATHON CAERDYDD
DYDD SUL 6 HYDREF 2019

Ymunwch â 'Tîm TGP Cymru' a'n helpu ni i godi arian i weithio gyda phlant , pobl ifanc a'u teuluoedd ledled Cymru.

Mae Hanner Marathon Caerdydd wedi tyfu'n un o'r rasys ffordd mwyaf yn y DU, sy'n mynd â chi drwy olygfeydd hardd ac adeiladau hanesyddol canol y ddinas.

Bydd y llwybr yn mynd â chi heibio i rai o leoliadau mwyaf eiconig y brifddinas, gyda golygfeydd godidog ac adeiladau hardd. Ar hyd y ffordd, byddwch yn mynd heibio i Farina gogoneddus Penarth cyn croesi'r morglawdd am Fae Caerdydd, lle byddwch yn rhedeg drwy galon y bae, heibio i'r Eglwys Norwyaidd a Chanolfan Mileniwm Cymru, cyn gorffen yng nghanol y ddinas.

Mae'r ffyrdd gwastad ar hyd y cwrs hwn yn ei gwneud yn ras berffaith ar gyfer rhedwyr profiadol a phobl sy'n rhedeg am y tro cyntaf.

Os ydych eisoes wedi cadw eich lle, cysylltwch â ni a gallwn eich cofrestru chi ar ein tîm a'ch cynnwys ar ein gwefan rhoi arian ar-lein, sy'n gwneud codi arian yn rhwydd. Byddwch yn cael fest redeg y tîm.

Y cyfan y mae'n rhaid i chi ei wneud yw canolbwyntio ar yr hyfforddiant pwysig hwnnw ar gyfer y diwrnod mawr!

E-bost: Fundraising@TGPCymru.org.uk Ffôn: 02920 396974

Bydd yr wybodaeth hon ar gael mewn gwahanol ieithoedd a fformatau ar gais. Cysylltwch â communications@tgpcymru.org.uk.

TGP Cymru yw enw gweithiol Tros Gynnal Plant, Elusen Gofrestredig Rhif 1099878.
Cofrestrwyd fel cwmni cyfyngedig drwy warant Rhif 04422485 (Cymru a Lloegr).
Swyddfa Gofrestredig: 12 Ffordd y Gogledd, Caerdydd, CF10 3DY.

tgpcymru.org.uk